Cynllun Cynnal y Cynhalwyr Rhondda Cynon Taf

# GWASANAETH CYMORTH CERDYN ARGYFWNG

Gwasanaeth i gynhalwyr sy'n rhoi gofal i oedolion sy'n anghenus am eu bod nhw'n glaf, yn fregus neu ag anabledd.
Mae'r cymorth mae'r cynhalwyr yn ei roi yn rhad ac am ddim.






Cynllun Cynnal y Cynhalwyr mewn partneriaeth â Lifeline (Carelink)

RHONDDA CYNON TAF

## Ydych chi'n poeni ynghylch beth fyddai'n digwydd i'r sawl rydych chi'n rhoi gofal iddo petaech chi'n mynd yn sâl neu'n cael damwain?

Os YDYCH chi, efallai byddai Cerdyn Argyfwng Gwasanaeth Cymorth o gymorth i dawelu'ch meddwl chi.

## Beth yw Cerdyn Argyfwng y Cynhalwyr?

Cerdyn maint cerdyn credyd y gallwch chi ei gadw gyda chi bob adeg yw e. Mae'n cael ei ddefnyddio yn gerdyn adnabod mewn damwain neu achos o salwch sydyn. Bydd Gwasanaeth Carelink y Cyngor yn cadw cofnod o'ch rhif cofrestru a'ch manylion chi fel bod modd inni drefnu cymorth i'r ddau ohonoch, tra byddwch chi'n cael sylw. Drwy wneud un galwad ffôn byr gallwn ni drefnu bod cymorth ar gael i'r sawl rydych chi'n rhoi gofal iddo. Mae staff Carelink yn gweithio 24 awr y dydd a 365 diwrnod y flwyddyn.



## Beth yw Carelink?

Mae Carelink yn llinyn bywyd pwysig iawn i'r henoed, pobl fregus, yr anabl neu bobl mae angen sicrwydd arnyn nhw, neu sy'n gwella gartref. Mae Carelink yn cynnig cymorth gwerthfawr i bobl i gadw'u hannibyniaeth a byw yn eu cartrefi'u hunain. Mae'n rhoi tawelwch meddwl o wybod bod rhywun ar gael petai rhywbeth yn digwydd.

## Pam sefydlu'r gwasanaeth?

Pobl sy'n rhoi gofal yn lleol ofynnodd am y gwasanaeth, oherwydd roedden nhw'n poeni ynghylch beth fyddai'n diwgydd petaen nhw allan ar eu pennau'u hunain ac yn cael damwain, yn mynd yn sâl neu'n cael eu rhwystro rhag cyrraedd adref. Roedden nhw eisiau gwasanaeth allai dawelu'u meddyliau ac roedd ar gael drwy'r dydd, bob dydd. Roedden nhw hefyd eisiau gwasanaeth fyddai'n rhoi'r diogelwch gorau posib i'r bobl roedden nhw'n rhoi gofal iddyn nhw.

## Sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu?

Rydych chi'n cofrestru gyda'r gwasanaeth drwy lenwi ffurflen gofrestru a'i hanfon hi at Gynllun Cynnal y Cynhalwyr. Bydd y ffurflen hon yn cynnwys gwybodaeth amdanoch chi, y sawl rydych chi'n rhoi gofal iddo a manylion am yr hyn bydd angen ei wneud petai argyfwng. Carelink, sef un o bartneriaid y gwasanaeth hwn, fydd yn cadw'r wybodaeth hon. Byddwn ni'n rhoi Cerdyn Argyfwng ichi.

## Ydy hi'n system ddiogel?

Mae'r system yn gyfrinachol. Does dim manylion personol ar y cerdyn, felly fydd dim modd enwi neb. Y rhif ar y cerdyn yw'r unig ffordd bydd modd adnabod neb. Mewn argyfwng, bydd Carelink yn ymateb drwy roi'r cyfarwyddiadau sydd ar y ffurflen gofrestru ar waith.

## Ydy'r gwasanaeth yn gweithio?

Ydy, mae cynlluniau tebyg ar waith mewn mannau eraill o Gymru ac mae'r sawl sy'n rhoi gofal yn eu hoffi ac yn eu defnyddio nhw. Mae'n hawdd iawn i ddefnyddio'r gwasanaeth ac mae wedi profi yn llwyddiannus iawn o ran gwneud yn siwr bod cymorth ar gael yn gyflym pan fo'i angen.

## Beth yw'r manteision ar gyfer y sawl sy'n rhoi gofal?

- Rydyn ni'n cynnig gwasanaeth mewn argyfwng 24 awr y dydd i bobl sy'n rhoi gofal os y byddan nhw'n cael damwain neu salwch sydyn
- Mae'r sawl sy'n rhoi gofal yn teimlo'n llai pryderus ac yn teimlo'n fwy rhydd i fynd allan
- Mae'n rhoi tawelwch meddwl petai rhywbeth yn codi sy'n eu rhwystro nhw rhag mynd adref

## Sut mae ymuno â'r gwasanaeth?

Mae modd ichi ymuno â'r gwasanaeth drwy lenwi ffurflen gofrestru sydd ar gael oddi wrth:

**GWIFREN GYMORTH I GYNHALWYR**

**RHADFFON (LLUN - GWENER)**

**0808 100 1801**

E-bost: cynnalycynhalwyr@rctcbc.gov.uk

neu drwy anfon llythyr at:

Cynllun Cynnal y Cynhalwyr
11-12 Gelliwastad Road,
Pontypridd CF37 2BW

01443 281463

## Beth nesaf?

Anfonwch eich ffurflenni cofrestru i Swyddfa Cynllun Cynnal y Cynhalwyr. O dderbyn eich ffurflen, bydd Cynllun Cynnal y Cynhalwyr yn eich cofrestru chi gyda'r gwasanaeth, yn rhoi cerdyn ichi ac yn dychwelyd copi o'r ffurflen gofrestru i chi. Byddwn ni'n anfon eich ffurflen chi i Carelink.

Rydych chi nawr wedi'ch cofrestru gyda'r gwasanaeth

## Sut dw i'n defnyddio'r cerdyn?

Cadwch eich cerdyn gyda chi bob amser. Mae'n bwysig bod rhywun yn dod o hyd i'r cerdyn adnabod hwn yn syth. Mae angen iddo fod yn un o'r pethau cyntaf y mae'r sawl sy'n dod i roi cymorth ichi yn dod ar ei draws. Os oes modd, clipiwch ar eich cot, waled neu fag llaw.



